

Safleoedd eraill y Cyfeillion ger Bodwrog

Ar hyn o bryd mae gennym dros 70 o addoldai yn ein gofal, ar hyd a lled Cymru a Lloegr, gan gynnwys chwe eglwys ar Ynys Môn.

Mae rhestr lawn o'n heglwysi i'w gweld ar ein gwefan (fofc.org.uk/find-churches)

Sant Peulan, Llanbeulan, Ynys Môn

Eglwys o'r 12fed ganrif a saif ar dwmpath ar waelod sarn hynafol.

LL63 5UR - **Ar agor bob dydd**

[what3words](https://what3words.com/apartment.tunes.overdone): apartment.tunes.overdone

Eglwys y Santes Fair Tal-y-Llyn, Ynys Môn

Eglwys fach ond ddestlus iawn mewn mynwent gron hynafol sy'n edrych dros Lyn Padrig.

LL63 5SQ - **Ar agor bob dydd**

[what3words](https://what3words.com/humans.sheepish.elephant): humans.sheepish.elephant

Sant Bigail, Llanfigael, Ynys Môn

Eglwys ddiymhongar ar ochr y ffordd gyda thu mewn llawn o'r cyfnod Sioraidd hwyr.

LL65 4DB - **Ar agor bob dydd**

[what3words](https://what3words.com/education.seriously.asterisk): education.seriously.asterisk

Sant Afran, Sant Ieuan a Sant Sannan, Llantrisant, Ynys Môn

Mae ganddi gorff a changell o'r 14eg ganrif, ac estyniad o'r 17eg ganrif, a dyma'r eglwys gyntaf yng Nghymru i ni ei hachub.

LL65 4AP - **Ar agor bob dydd**

[what3words](https://what3words.com/strikers.gosh.exhaling): strikers.gosh.exhaling

Eglwys Sant Tyfrydog at Llandyfrydog, Ynys Môn

Mae eglwys Gothig swynol Sant Tyfrydog yn gysylltiedig â chwedl leol ddiddorol, ac mae ganddi nodweddion canoloesol sydd wedi goroesi a dorefn llawn cymeriad o'r cyfnod Sioraidd hwyr.

LL71 8AG - **Ar gau oherwydd gwaith atgyweirio**

[what3words](https://what3words.com/apartment.tunes.overdone): apartment.tunes.overdone

FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES

Pwy yw'r Friends?

Elusen fach ydym ni, sy'n gofalu am dros 70 o addoldai hanesyddol ledled Cymru a Lloegr. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid gan y llywodraeth yn Lloegr a dim ond grant gweddol fach yng Nghymru. Mae popeth a wnawn yn dibynnu ar bobl sy'n malio – **pobl fel chi.**

Beth ydym ni'n ei wneud?

Ers 1957, yr un fu ein cenhadaeth: achub hen addoldai hardd ond segur sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol rhag cael eu dymchwel, rhag dirywio a rhag cael eu haddasu'n ddigydyndeimlad.

Heddiw, mae ein gwaith yn bwysicach nag erioed, wrth i fwy a mwy o addoldai wynebu cau a dyfodol ansicr.

Rydym yn achub addoldai hanesyddol rhag eu dymchwel, rydym yn eu hatgyweirio yn ofalus ac yn eu hailagor, ac rydym yn cadw eglwysi hanesyddol yn fyw i gymunedau lleol ac ymwelwyr eu mwynhau.

Sut allwch chi helpu

Gallwch chi helpu ein hachos drwy ddod yn Gyfaill, gwirfoddoli eich amser, gwneud cyfraniad, neu ein cofio yn eich Ewyllys. I gael gwybod mwy am ein gwaith a'r safleoedd sydd dan ein gofal, ewch i'n gwefan, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch â'n tîm yn uniongyrchol – drwy'r post, e-bost neu alwad ffôn. Gyda mwy o gefnogaeth, gallem wneud cymaint mwy – **a wnewch chi ymuno â ni?**

friendsoffriendlesschurches.org.uk

70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ

 @friendschurches

E: office@fofc.org.uk

 @friendlesschurches

T: 020 4520 4458

 Friends of Friendless Churches

Mae'r Friends of Friendless Churches yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif cwmni 1119137).

Rydym yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif elusen 1113097).

© FoFC 2026



**Eglwys Sant Twrog,
Bodwrog, Ynys Môn –
Llyfryn hanes**

Saif eglwys Sant Twrog ar graig wenithfaen ymhlith caeau bryniog Ynys Môn. Y mae'n gysegrfan unig, wyntog ac yn esiampl bwerus a pharhaus o oroesiad canoloesol.

Hanes

Cartref yr eglwys hon yw Bodwrog, a oedd yn drefgordd rydd ganoloesol. Credir mai cyfansawdd o 'Bod = annedd neu eglwys' a 'Mwrog = enw personol' yw enw'r lle. Fel arfer, arddelir y ffurf Sant Twrog fel cysegriad yr eglwys; ef sy'n cael y clod am ysgrifennu am fywyd Sant Beuno. Beuno oedd un o'r mynachod Cristnogol cynnar pwysicaf yng Ngogledd Cymru. Mae'r drafodaeth ynghylch p'un a Twrog ynteu Mwrog, un sant ynteu ddau, oedd ein sant ni yn rhan o sgwrs ragorach nag y gellid ei chynnwys o fewn cloriau'r llyfryn hwn.

Efallai bod eglwys gynharach (neu eglwysi yn wir) wedi meddiannu'r safle hwn, ond mae'r adeilad presennol yn dyddio o ddiwedd y 15fed ganrif, pan oedd Richard Bulkeley (m.1524) yn Archddiacon Ynys Môn. Roedd y teulu Bulkeley yn feistri tir mawr ar Ynys Môn ac roedd Richard Bulkeley yn arbennig yn noddwr i Eglwys Sant Twrog, a chwaraeodd ran sylweddol yn ei hailadeiladu yn yr Oesoedd Canol. Mae'r pennau teirw sydd wedi'u cerfio yn lintel y drws deheuol a sbandreli'r drws gogleddol yn goffâd o'i ddylanwad. (Cafodd y drws gogleddol ei gwtogi i wneud ffenestr ganrifoedd yn ôl). Tarw oedd dyfais herodrol y teulu Bulkeley.

Ym 1648, rhoddwyd Eglwys Sant Twrog i Goleg yr Iesu, Rhydychen, sydd â chysylltiadau hanesyddol cryf â



Chymru. Am dros 200 mlynedd, âi degwm yr eglwys i Goleg yr Iesu, nes i'r eglwys gael ei hystyried yn 'bellter sylweddol o unrhyw anheddiad dynol'.

Ymgwymerwyd â phrosiect adfer yn y 19eg ganrif ac, yn ffodus, roedd yn eithaf ysgafn ei gyffyrddiad yn ôl safonau Fictoraidd. Caedd yr eglwys ar gyfer addoliad rheolaidd yn 2023 ac fe'i cymerwyd i ofal y Friends of Friendless Churches yn 2024.

Yr Eglwys

Un to llechi sy'n cysgodi Eglwys Sant Twrog, ac mae ynddi gorff a changell barhaus wedi'u hadeiladu o feini rwbel gyda naddwaith calchfaen. Yn y pen gorllewinol mae clochdy syml, traddodiadol sy'n gartref i un gloch, sydd â'r dyddiad 1688 wedi'i gerfio arni.

Mae'r eglwys wedi aros bron fel yr oedd pan gafodd ei hadeiladu ddiwedd y 15fed ganrif. Mae newidiadau yn y gwaith maen yn awgrymu y gallai rhywfaint o ailadeiladu fod wedi digwydd yn ddiweddarach ar y pen dwyreiniol, ond naws canoloesol sydd flaenaf yma, yn ddi-os. Mae'r drysau gogleddol a deheuol, ffenestr y dwyrain a'r ddwy ffenestr ddwyreiniol sydd yn y waliau gogleddol a deheuol i gyd o ddyddiad tebyg, sef diwedd y 1400au.

Mae addurn y drws carreg deheuol wedi treulio'n arw ond mae'r cerfiad yn y sbandrel dwyreiniol wedi'i

ddehongli fel arfbeisiau Llywarch ap Bran, sef sieffrwn rhwng tair brân goesgoch neu dair brân. Patrwm dail sydd ar y sbandrel gorllewinol. Mae grisiau o'r drws deheuol yn arwain i lawr i'r eglwys. Mae eil gul o lechfeini yn rhedeg rhwng dwy res o seddau caeedig cyfyng wedi'u paentio. Saif y ffenestr ddwyreiniol unionsgwar driphlyg a'i golwg dros du mewn yr eglwys. Mae'n llenwi'r talcen dwyreiniol bron yn gyfan gwbl ac yn cynnig golygfeydd godidog dros gaeau gwyrdd am y gwelwch chi.

Parau o rwyllwaith pumnaen o'r 15fed ganrif yw ffenestri'r gangell ill dwy. Mae ffenestri corff yr eglwys yn ychwanegiadau diweddarach, o'r 18fed ganrif o bosibl. Yn y 19eg ganrif, ailosodwyd yr eglwys gyda phaneli pren, pulpud a desg ddarllen, seddau caeedig (mae drysau gan rai ohonynt) a rheilen gymun fflwtiog gywrain a gafodd, fwyaf tebyg, ei hailgylchu o ddodrefnyn. Wedi'i osod yn erbyn y wal orllewinol mae ciwbicl pren a grëwyd i ffurfio festri, a bedyddfaen silindrog plaen wedi'i osod ar sylfaen siamffrog ar bedestal byr solet.

Mae dyddiad y ffont yn anhysbys.

